



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

27 Mawrth 2013

Y Frech Goch

Efallai eich bod yn ymwybodol bod nifer fawr iawn o achosion o'r frech goch yn Abertawe sy'n lledaenu ar draws Cymru. Mae'r salwch yn lledaenu'n gyflym iawn trwy ysgolion os nad yw llawer o'r disgyblion wedi cael eu hamddiffyn trwy gael dau bigiad y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela (MMR). Mae 38 o blant wedi cael eu derbyn i'r ysbty yn ystod yr achosion hyn o ganlyniad i haint y frech goch.

Rydym yn debygol o weld achosion o'r frech goch yng Ngogledd Cymru, ac mae'n bosibl y cawn achosion mewn ysgol yn fuan gan nad yw'r nifer sydd wedi cael y brechiad MMR yn ddigon uchel i atal y frech goch rhag lledaenu.

Os nad yw eich plentyn/person ifanc yn ei ardegau wedi cael y brechlyn/nau MMR neu os ydych yn credu eu bod wedi colli apwyntiad am frechlyn, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu, ymwelydd iechyd neu nyrs practis nawr er mwyn eu hamddiffyn. Os oes babanod bach, menywod beichiog neu aelodau o'r teulu â chyflyrau imiwnedd difrifol sydd yn methu cael y brechlyn MMR yn eich cartref neu eich teulu agos, gwnewch yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn ei ardegau yn y tŷ yn cael eu brechu'n llawn. Bydd hyn yn helpu i amddiffyn yr unigolion hyn sy'n agored i niwed.

Mae'r frech goch yn heintus iawn a chaiff ei ledaenu o berson i berson trwy besychu a thisian. Mae'r symptomau cynnar yn cynnwys tymheredd uchel, pesychu, annwyd a llid pilen y llygad (llygaid coch, poenus). Mae brech flotiog, goch yn ymddangos 3 i 7 diwrnod yn ddiweddarach sydd fel arfer yn dechrau ar yr wyneb ac yn lledaenu i weddill y corff. Mae'r person fel arfer yn eithaf sâl ac yn aml yn dymuno gorwedd yn dawel mewn ystafell dywyll. Gellir dioddef cymhlethdodau difrifol.

Ni ddylai unrhyw blentyn sy'n datblygu symptomau'r frech goch fynychu'r ysgol am bedwar diwrnod ar ôl i'r frech ddechrau.

Os nad yw eich plentyn wedi cael ei amddiffyn yn llawn gweithredwch nawr i'w amddiffyn ac i amddiffyn y rheiny o'u hamgylch. Mae mwy o wybodaeth am y frech goch ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn:

<http://www.publichealthwales.org/measles>

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y frech goch neu MMR ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar **0845 46 47** os gwelwch yn dda.

